# Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E.coli yng Nghymru

## E.Coli(2) 01-05(p4)

### Dyddiad y cyfarfod: 17 Tachwedd 2005

### Amser y cyfarfod: 9:00am tan 12:30pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### YR YMATEBION A DDAETH I LAW HYD YMA GAN LYWODRAETHWYR YSGOL

1. Ar 24 Hydref 2005, ysgrifennodd Gwasanaeth y Pwyllgorau at Gadeiryddion Llywodraethwyr y 41 ysgol yr effeithiodd yr achosion e.coli arnynt i ofyn iddynt roi'u barn ar yr hyn y dylid ei gynnwys yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

2. Gofynnwyd iddynt ymateb erbyn 10 Tachwedd. Daeth ymatebion i law gan bennaeth Ysgol Gynradd Cwmdâr ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr a chan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Aberpennar.

3. Isod amlinellir eu hymatebion:

#### Ysgol Gynradd Cwmdâr

O blith y ddau sy'n cynrychioli'r rhieni ar gorff llywodraethu’r ysgol, roedd un ohonynt yn teimlo nad oedd angen gwneud sylw. Awgrymodd y llall y dylid ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Beth oedd tarddiad yr achosion e.coli? h.y. lle y cychwynnodd a sut yr aeth i'r gadwyn fwyd;
- A yw'r AALl wedi cyfrannu at ostwng safon y bwyd a gyflenwir drwy dderbyn y tendrau isaf pan fydd yn llunio contractau i ddarparu bwyd ysgol?
- O neilltuo mwy o arian ar gyfer prydau ysgol, a fyddai mwy o fwydydd ffres yn cael eu defnyddio ac a fyddai'n codi safonau hylendid drwy'r gadwyn gyflenwi?
- A fyddai wedi bod yn bosib rhoi mwy o wybodaeth i rieni er mwyn atal yr haint rhag mynd o blentyn i blentyn?
- A fyddai modd darparu gofal i blant sy'n gwella i atal rhieni sy'n gweithio rhag anfon eu plant yn ôl i'r ysgol yn rhy fuan oherwydd pwysau gan gyflogwyr?

**Ysgol Gyfun Aberpennar**

Ar ôl ymgynghori â'r llywodraethwyr, awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnwys y pwyntiau isod yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- Dylai fod gan yr Ymchwiliad bwerau i wysio ac i groesholi tystion.
- Dylai unrhyw argymhellion fod yn rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Dylid ystyried rheoliadau diogelwch bwyd ac ansawdd bwyd.
- Dylid ystyried y gofynion rheoliadol o ran y gallu i olrhain yn y broses gaffael.
- Dylid ystyried rheoliadau sy’n ymwneud â’r ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i rannu gwybodaeth â sefydliadau caffael cyhoeddus ledled Cymru am arolygiadau sy'n nodi safleoedd risg uchel.
- Dylid ystyried y rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddi adroddiadau arolygiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer pob Awdurdod Lleol.
- Dylid ystyried y prosesau caffael gyda golwg arbennig ar ofalu nad yw tendrwr llwyddiannus yn mynd yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth hylendid bwyd a allai ei anghymhwyso rhag ennill contract.
- Dylid ystyried unrhyw reoliadau bwyd sy'n gynghorol yn hytrach nag yn orfodol.
- Dylid ystyried dulliau o rannu gwybodaeth a rhoi cyngor i rieni ac ysgolion pan ddaw achosion i'r amlwg.
- Dylid ystyried a yw cost pob pryd yn cael unrhyw effaith ar ddiogelwch bwyd neu ar faeth.

4. Os daw unrhyw ymatebion eraill i law gan Lywodraethwyr Ysgol cyn y cyfarfod, byddwn yn eu hanfon at yr Aelodau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2005**